# Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gweithredol Caerdydd

**Cofnodion o gyfarfod a gynhaliwyd**
**Dydd Gwener 10 Mawrth 2017, 10.00am – 12.30pm**
**Ystafell Gyfarfod 2, Hyb STAR,**
**Muirton Road, CF24 2SJ**

| | | | |
|---|---|---|---|
| | **Yn bresennol:** | | |
| | **Aelodau Bwrdd Statudol:** | | |
| | Paul Orders **(Cadeirydd)** | Prif Weithredwr | |
| | Sarah McGill | Cyngor Dinas Caerdydd Cyfarwyddwr Cymunedau, Tai a Gwasanaethau Cwsmeriaid | |
| | Gareth O'Shea | Cyfarwyddwr Gweithgareddau Gweithredol De Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru | |
| | Abigail Harris | Cyfarwyddwr Cynllunio, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro | |
| | Fiona Kinghorn | Cyfarwyddwr Iechyd Cyhoeddus Dros Dro, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro | |
| | David Bents | Rheolwr Gweithgareddau Grŵp, Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru | |
| | **Cyfranogwyr Gwadd** | | |
| | Sheila Hendrickson-Brown **(Is-Gadeirydd)** | Prif Swyddog Gweithredol, C3SC | |
| | Mark Brace | Dirprwy Gomisiynydd Heddlu a Throseddu | |
| | Prif Uwch Arolygydd Belinda Davies | Heddlu De Cymru | |
| | Victoria Harris | Pennaeth yr Uned Gyflenwi Leol, Cwmni Adsefydlu Cymunedol | |
| | **Ymddiheuriadau** | | |
| | Peter Greenhill | Pennaeth yr Uned Gyflenwi Leol, GPC | |
| | Tony Young | Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol CDC | |
| | Anne Wei | Rheolwr Cynllunio a Phartneriaethau Strategol | |
| | Joseph Reay | Pennaeth Perfformiad a Phartneriaethau, CDC | |
| | **Presennol:** | | |
| | Gareth Newell | Rheolwr Polisi, Partneriaethau ac Ymchwil, CDC | |
| | Kate Ward | Prif Swyddog Polisi a Phartneriaethau, CDC | |
| | Clive Bailey | Swyddog Polisi a Phartneriaethau, CDC | |
| | **Eitem 3** | | |
| | Jo-Anne Daniels | Cyfarwyddwr Cymunedau a Threchu Tlodi, Llywodraeth Cymru | |
| | Amelia John | Dirprwy Gyfarwyddwr Adran Gymunedau, Llywodraeth Cymru | |
| | **Eitem 6** | | |
| | Rob Ashelford | Uwch Reolwr Rhaglenni Arloesi, NESTA | |
| | **Eitem 7** | | |
| | Nick Batchelar | Cyfarwyddwr Addysg a Dysgu Gydol Oes | |
| | Suzanne Scarlett | Rheolwr Perfformiad Addysg | |

| | | |
|---|---|---|
| 1. | **Croeso ac Ymddiheuriadau**<br>Agorodd y Cadeirydd y cyfarfod. Nodwyd ymddiheuriadau fel uchod. | |
| 2. | **Cofnodion a chamau gweithredu'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus**<br><br>Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 14 Tachwedd 2016 fel cofnod cywir. Rhoddwyd diweddariadau ar y camau gweithredu.<br><br>**PENDERFYNWYD:**<br>- Aelodau'r Bwrdd i enwebu cynrychiolwyr i eistedd ar Grŵp Ymgynghorol Cynllunio Llesiant oni bai y gwnaethant hynny eisoes.<br>- Dosbarthu briff i'r Bwrdd ar agenda arfaethedig y gweithdy ar gais Catapwlt Dinasoedd y Dyfodol ym mis Ebrill 2017.<br>- Trafodaeth i'w chynnal ar y berthynas rhwng y cais Catapwlt a chais Arloesi UK (BT Broadband) | **Pawb**<br><br>**Ysgrifenyddiaeth**<br><br>**PO/AH/SMG** |
| 3. | **Adeiladu Cymunedau Gwydn**<br><br>Rhoddodd Jo-Anne Daniels ac Amelia John o Lywodraeth Cymru drosolwg ar y camau oedd ar waith i gyflwyno ymagwedd newydd at adeiladu cymunedau gwydn yn dilyn y penderfyniad i ddirwyn Cymunedau yn Gyntaf i ben.<br><br>Yn dilyn ymgynghori ar y ffordd ymlaen, mae Llywodraeth Cymru yn gweithio â'r Byrddau Cyflenwi Lleol i gynorthwyo gyda'r pontio ar ymagwedd newydd a fydd yn canolbwyntio ar dair maes blaenoriaeth.<br>• Cyflogaeth<br>• Blynyddoedd Cynnar<br>• Ymrymuso<br><br>Trafododd aelodau'r BGC nifer o faterion yn cynnwys:<br>- Datblygu cynllun pontio sy'n cyflenwi yn erbyn anghenion cymunedol yn ogystal a'r rhai a nodwyd yn yr asesiad anghenion. Rhan allweddol partneriaid y BGC o safbwynt alinio â chynllunio llesiant. | |
| 4. | **Agenda Trawsffurfiad Strategol BIP**<br><br>Rhoes Abigail Harris drosolwg o raglenni gwaith agenda drawsffurfio'r BIP.<br><br>**PENDERFYNWYD:**<br>- PO ac AH i drafod ymhellach y berthynas rhwng blaenoriaethau HEART a'r Fargen Ddinesig.<br>- Partneriaid i ddarparu trosolwg o'u cynlluniau trawsffurfio yng nghyfarfod nesaf u BGC Gweithredol. Rhaglenni trawsffurfio i fod yn eitem agenda sefydlog.<br>- Partneriaid i enwebu cynrychiolwyr i ddatblygu cynnig ar y cyd i gael academi sgiliau yn seiliedig ar uwch sgilio rheolwyr sy'n cynnig gwasanaethau. | **PO/AH**<br><br>**Pawb/Ysgrifenyddiaeth:**<br><br>**Pawb** |

| | | |
|---|---|---|
| **5.** | **Cynllun ac Asesiad Llesiant Lleol**<br><br>Nododd y Bwrdd ganlyniadau'r ymgynghoriad ar yr Asesiad Llesiant drafft a'r diwygiadau a wnaed i Adroddiad Dinas Fyw, Dinas Byw er mwyn ymateb. Bu'r adborth yn gadarnhaol ar y cyfan, gyda'r ymatebwyr yn canmol natur hygyrch Adroddiad Dinas Fyw, Dinas Byw. Nodwyd rhai bylchau, yn benodol yn ymwneud â data llesiant diwylliannol, a'r dadansoddi mewn rhai rhannau o'r Asesiad.<br><br>O ystyried y prinder amser i ailddrafftio'r Asesiad, brifiwyd y Bwrdd ar newidiadau pellach oedd i'w gwneud cyn i'r Asesiad Llesiant gael ei gyflwyno i'r PGC Llawn i'w gymeradwyo.<br><br>Hefyd trafododd y Bwrdd yr amserlen ar gyfer datblygu Cynllun Llesiant Caerdydd. I ateb y gofyn i geisio cyngor Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol a chael ymgynghoriad cyhoeddus llawn, bydd gofyn drafftio amcanion llesiant yn gynnar yn haf 2017.<br><br>**PENDERFYNWYD:**<br>- Cyfarfodydd y PGC ym mis Mai a Mehefin i gael eu hwyluso er mwyn gallu datblygu amcanion llesiant priodol.<br>- Y Cadeirydd y gymeradwyo unrhyw newid pellach i'r Asesiad drafft cyn iddo fynd ger bron i gael cymeradwyaeth BGC lawn ar 21 Mawrth 2017.<br>- Nodwyd yr amserlen ar gyfer cynhyrchu Cynllun Llesiant Caerdydd. | **Ysgrifenyddiaeth**<br><br>**PO** |
| **6.** | **Cynigion Hyb Arloesedd**<br>Cyflwynodd Rob Ashelford gynnig am gynllun peilot 12 mis ar gyfer Hyb Arloesedd Caerdydd. Trafododd y Bwrdd faterion yn ymwneud â dewis heriau priodol i'r Hyb fynd i'r afael â nhw; y capasiti angenrheidiol ar yr Hyb a'r adnoddau priodol.<br><br>**PENDERFYNWYD:**<br>- Y BGC Gweithredol i argymell fod y BGC yn sefydlu cytundeb tynnu i lawr gyd y Lab i dreialu Hyb Arloesi Caerdydd.<br>- Partneriaid i ystyried trefniadau ariannu'r Hyb. | **Ysgrifenyddiaeth**<br>**Partneriaid** |
| **7.** | **Ymrwymiad Caerdydd**<br><br>Rhoddodd Nick Batchelar a Suzanne Scarlett drosolwg o'r sefyllfa bresennol mewn perthynas â llunio Ymrwymiad Caerdydd a'r diddordeb sylweddol a gaed o du'r sector breifat..<br><br>**PENDERFYNWYD:**<br>- Diweddariad i'r gyflwyno yn y BGC nesaf ar 21 Mawrth 2017 gan gynnwys argymhelliad fod Addysg yn cyfarfod â chysylltiadau partner enwebedig i drafod y camau nesaf. | **Tîm Addysg/**<br>**Ysgrifenyddiaeth** |

| | | |
|---|---|---|
| **8.** | **Adolygiadau Lladdiad Domestig**<br><br>Crynhowyd y papur a ddosbarthwyd cyn y cyfarfod gan Gareth Newell oedd yn amlinellu gofynion statudol y BGC o safbwynt yr Adolygiad Lladdiad Domestig (ALlD), eglurwyd swyddogaethau'r BGC a'r Bwrdd Rhaglen Cymunedau Cydlynol mwy Diogel (BRhCCD) a gwnaeth argymhellion parthed y ffordd ymlaen o ran yr adolygiad presennol a rhai'r dyfodol.<br><br>**PENDERFYNWYD:**<br>- Bydd y Bwrdd Gweithredol yn gyfrifol am gymeradwyo ac arwyddo adroddiadau a chynlluniau gweithredu ALlD;<br>- Bydd Bwrdd Rhaglen Cymunedau Mwy Cydlynol a Diogel yn monitro y camau gweithredu ac argymhellion a amlinellwyd yn yr adroddiadau terfynol a darparu adroddiad yn ôl yr angen os byd newid i'r BGC Gweithredol.<br>- Cyfarfod Eithriadol o'r Bwrdd gweithredol i gael ei gynnal i lofnodi adroddiadau ALlD presennol yn dilyn cyfarfod o'r Bwrdd Cymunedau Cydlynol a Mwy Diogel ar 30 Mawrth 2017.<br>- Caiff yr hyn a ddysgwyd yn ymarferol yn dilyn y ddau ALlD cyntaf ei gymryd i'r BRhCCD yn dilyn eu cyhoeddi er mwyn bwydo rheolaeth ar ALlD yn y dyfodol.<br>- Pob sefydliad i ymateb ar frys i unrhyw gais am wybodaeth o safbwynt ALlD. | **Ysgrifenyddiaeth** |
| **9.** | **Trefniadau Llywodraethu'r Bwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus ac adroddiad ar eithriadau Chwarter 3 2016 / 17**<br><br>Cyflwynodd Gareth Newell bapur yn egluro'r berthynas lywodraethiant bresennol rhwng y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus llawn a Gweithredol, sefyllfa BGCau eraill ledled Cymru a dewisiadau i'r Weithrediaeth.<br>BGC i ystyried er mwyn argymell ffordd ymlaen i'r BGC yn ei gyfarfod ar 21 Mawrth 2017.<br><br>**PENDERFYNWYD:**<br>- Argymhellir fod y Bwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus i gadw model dwy lefel gyda threfniadau adrodd gwell rhwng y ddau Fwrdd.<br>- Y newidiadau arfaethedig i drefniadau llywodraethiant y BGC i'w hystyried gan y BGC llawn yn ei gyfarfod ar 21 Mawrth 2017. | **Ysgrifenyddiaeth**<br><br>**Ysgrifenyddiaeth** |
| **10.** | **Adroddiad Brexit**<br><br>Derbyniodd y Bwrdd adroddiad yn sefydlu oblygiadau Brexit ar gyfer Caerdydd ynghyd ag ymateb drafft gan Y BGC.<br><br>**PENDERFYNWYD:**<br>- Yr adroddiad a'r crynodeb gweithredol i 'w ddiwygio er mwyn gwneud y cyfeiriadau at gydlyniad cymunedol yn fwy amlwg.<br>- Y Weithrediaeth yn argymell i'r BGC fod yr adroddiad yn cael ei gyhoeddi i gyd-fynd â thanio Erthygl 50. | **Ysgrifenyddiaeth**<br><br>**Ysgrifenyddiaeth** |

| | | |
|---|---|---|
| **11.** | **Papur Gwyn ar Ddiwygio Llywodraeth Leol**<br><br>Nodwyd ymateb drafft Cyngor Dinas Caerdydd i'r Papur Gwyn. | |
| **12.** | **Sganio'r Gorwel ac Unrhyw Fusnes Arall**<br><br>Cynigiwyd y canlynol fel eitemau ar gyfer agenda cyfarfod nesaf y BGC Gweithredol, 18 Mai 2017.<br>o Diweddariad ar Ranbarth Gwella Busnes<br>o Deddf Polisi a Throsedd 2017 – Diwygio mechnïaeth<br>o Diweddariad ar y Fargen Ddinesig<br>o Strategaeth Cysgu ar y Stryd Caerdydd 2017 - 2020 | **Ysgrifenyddiaeth** |
| | **Cloi** | |

| | **Camau Gweithredu** | |
|---|---|---|
| | **Cofnodion a Chamau Gweithredu**<br><br>*Grŵp Ymgynghorol Llesiant*<br><br>• Aelodau'r Bwrdd i enwebu cynrychiolwyr i eistedd ar Grŵp Ymgynghorol Cynllunio Llesiant oni bai y gwnaethant hynny eisoes.<br>• | **Pawb** |
| | *Gweithdy cynnig Catapwlt Dinasoedd y Dyfodol (Ebrill 2017)*<br><br>• Nodiadau briffio i'w dosbarthu i'r Bwrdd ar agenda'r gweithdy arfaethedig.<br>• Trafodaeth i'w chynnal ar y berthynas rhwng y cais Catapwlt a chais Arloesi UK (BT Broadband) | **Ysgrifenyddiaeth**<br><br>**PO/AH/SMG** |
| | **Eitem 4 Agenda Trawsffurfiad Strategol BIP**<br><br>• PO ac AH i drafod ymhellach y berthynas rhwng blaenoriaethau HEART a'r Fargen Ddinesig.<br>• Partneriaid i ddarparu trosolwg o'u cynlluniau trawsffurfio yng nghyfarfod nesaf y BGC Gweithredol. Rhaglenni trawsffurfio i fod yn eitem agenda sefydlog.<br>• Partneriaid i enwebu cynrychiolwyr i ddatblygu cynnig ar y cyd i gael academi sgiliau yn seiliedig ar uwch sgilio rheolwyr sy'n cynnig gwasanaethau. | **PO/AH**<br><br>**Pawb/ Ysgrifenyddiaeth**<br><br>**Pawb** |
| | **Eitem 5 Cynllun ac Asesiad Llesiant Lleol**<br>- Cyfarfodydd y PGC ym mis Mai a Mehefin i gael eu hwyluso er mwyn gallu datblygu amcanion llesiant priodol. | |

| | | |
|---|---|---|
| | - Y Cadeirydd y gymeradwyo unrhyw newid pellach i'r Asesiad drafft cyn iddo fynd ger bron i gael cymeradwyaeth BGC lawn ar 21 Mawrth 2017.<br>- Nodwyd yr amserlen ar gyfer cynhyrchu Cynllun Llesiant Caerdydd.<br><br>**Eitem 6 Cynigion Hyb Arloesedd**<br>• Y BGC Gweithredol i argymell fod y BGC yn sefydlu cytundeb tynnu i lawr gyd y Lab i dreialu Hyb Arloesi Caerdydd.<br>• Partneriaid i ystyried trefniadau ariannu'r Hyb.<br><br>**Eitem 7 Ymrwymiad Caerdydd**<br><br>• Diweddariad i'r gyflwyno yn y BGC nesaf ar 21 Mawrth 2017 gan gynnwys argymhelliad fod Addysg yn cyfarfod â chysylltiadau partner enwebedig i drafod y camau nesaf.<br><br>**Eitem 8 Adolygiadau Lladdiad Domestig**<br><br>• Bydd y Bwrdd Gweithredol yn gyfrifol am gymeradwyo ac arwyddo adroddiadau a chynlluniau gweithredu ALlD;<br>• Bydd Bwrdd Rhaglen Cymunedau Mwy Cydlynol a Diogel yn monitro'r camau gweithredu a'r argymhellion a amlinellwyd yn yr adroddiadau terfynol a darparu adroddiad yn ôl yr angen os bydd newid i'r BGC Gweithredol.<br>• Cyfarfod Eithriadol o'r Bwrdd gweithredol i gael ei gynnal i lofnodi adroddiadau ALlD presennol yn dilyn cyfarfod o'r Bwrdd Cymunedau Cydlynol a Mwy Diogel ar 30 Mawrth 2017.<br><br>**Eitem 9 Trefniadau Llywodraethiant y Bwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus ac adroddiad ar eithriadau Chwarter 3 2016 / 17**<br><br>• Argymhellir fod y Bwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus i gadw model dwy lefel gyda threfniadau adrodd gwell rhwng y ddau Fwrdd.<br>• Y newidiadau arfaethedig i drefniadau llywodraethiant y BGC i'w hystyried gan y BGC llawn yn ei gyfarfod ar 21 Mawrth 2017.<br><br>**Eitem 10 Adroddiad Brexit**<br><br>• Yr adroddiad a'r crynodeb gweithredol i 'w ddiwygio er mwyn gwneud y cyfeiriadau at gydlyniad cymunedol yn fwy amlwg.<br>• Y Weithrediaeth yn argymell i'r BGC fod yr adroddiad yn cael ei gyhoeddi i gyd-fynd â thanio Erthygl 50.<br><br>**Sganio'r Gorwel ac Unrhyw Fusnes Arall**<br><br>• Eitemau agenda arfaethedig ar gyfer y BGC Gweithredol, 18 Mai 2017:<br>o Diweddariad ar Ranbarth Gwella Busnes<br>o Deddf Polisi a Throsedd 2017 – Diwygio mechnïaeth<br>o Diweddariad ar y Fargen Ddinesig<br>o Strategaeth Cysgu ar y Stryd Caerdydd 2017 - 2020 | **PO**<br><br><br><br><br><br>**Ysgrifenyddiaeth**<br><br>**Partneriaid**<br><br><br>**Tîm Addysg/ Ysgrifenyddiaeth**<br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br>**Ysgrifenyddiaeth**<br><br><br><br><br><br>**Ysgrifenyddiaeth**<br><br>**Ysgrifenyddiaeth**<br><br><br>**Ysgrifenyddiaeth**<br><br>**Ysgrifenyddiaeth**<br><br><br><br>**Ysgrifenyddiaeth** |